# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## EOC(3)-12-08(p.1) : 2 Hydref 2008

### Pwrpas

1. Rwy'n darparu'r papur sydd wedi'i atodi ar gais y Pwyllgor i roi gwybodaeth i'w cynorthwyo wrth iddynt ystyried ymchwiliad posibl i faterion sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru.

### Crynodeb / Argymhellion

2. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn i mi am bapur sy'n amlinellu'r gwaith y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud ar amryw o faterion, yn arbennig drwy ein Strategaeth ar gyfer Bobl Hŷn.

3. Mae'r papur sydd wedi'i atodi'n canolbwyntio ar y materion hynny sy'n rhan o'm portffolio fel Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol. Rwyf hefyd wedi nodi (ym mharagraff 5 isod) y materion hynny sydd y tu allan i'm portffolio a bydd angen i'r Pwyllgor chwilio am dystiolaeth am y rhain gan y Gweinidog/Ysgrifennydd Parhaol priodol.

### Cefndir

3. Mae'r Pwyllgor wedi amlinellu fod ganddynt ddiddordeb mewn ymgymryd ag ymchwiliad i faterion sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru. Rydych wedi nodi tri maes posibl i ymchwilio iddynt:

Y driniaeth a gaiff pobl sy'n byw mewn gofal preswyl, e.e. mewn perthynas â meddyginiaeth, ymarfer ac ati

Materion sy'n ymwneud ag addasrwydd ac addasu tai nad ydynt yn rhai arbenigol (h.y. gan alluogi pobl i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain).

Gwahaniaethu mewn cyflogaeth, yn arbennig mewn recriwtio, ac mewn amodau cyflogaeth.

4. Deallaf fod y Pwyllgor wrthi'n cwmpasu'r maes wrth ystyried ei Ymchwiliad, ac nad yw'r Pwyllgor wedi cytuno ar ei gylch gorchwyl eto. Mae'r Pwyllgor serch hynny wedi awgrymu y byddech yn fodlon derbyn gwybodaeth oddi wrthyf am y materion canlynol:

a.Y driniaeth a roddir i bobl hyn sy'n byw mewn lleoliadau gofal preswyl, o ran urddas, amddiffyn rhag camdriniaeth, gofal iechyd (yn arbennig y defnydd priodol o feddyginiaeth) ac ansawdd bywyd:

Gweithredu ac effeithlonrwydd y rheoliadau a'r trefniadau arolygu presennol ar gyfer cartrefi gofal preswyl

Y cyfraniad a wnaed i welliannau mewn safonau gofal gan y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn a chynlluniau ar gyfer datblygiadau pellach

Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion a sefydlwyd yng Nghymru a thystiolaeth o effeithiolrwydd, datblygiadau cyfredol a chynlluniau i'r dyfodol

Rhaglen Urddas mewn Gofal a'r cyfraniad y bydd yn ei wneud i wella safonau mewn gofal preswyl

Trefniadau ar gyfer cwynion a gwneud iawn gan bobl hyn mewn cartrefi gofal a'u perthnasau/gofalwyr

Trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth i bobl hyn mewn cartrefi gofal

b.Gwelliannau ac addasiadau fel y gall pobl hyn aros yn eu cartrefi eu hunain

Diweddariad ar drefniadau i ddarparu addasiadau, e.e. Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, a datblygiadau diweddar yn dilyn adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (2004) ac adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (2005).

c.Gwahaniaethu mewn cyflogaeth

Mentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â gwahaniaethu mewn cyflogaeth yn erbyn pobl hŷn

Canlyniadau mentrau cyflogaeth a nodwyd yn y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn 2003-08

Gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau ar fynd i'r afael â gwahaniaethu mewn cyflogaeth ar gyfer pobl hyn – gwaith y gorffennol a chynlluniau'r dyfodol.

Unrhyw wybodaeth ystadegol y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ei rhoi ar hyn o bryd am y bobl hŷn y mae'n eu recriwtio ei hun.

5. Mae'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl (y cyfeirir ato yn 4(b)) uchod yn fater i'r Dirprwy Weinidog dros Dai; mae cyflogaeth gan gynnwys mentrau i fynd i'r afael â gwahaniaethu mewn cyflogaeth yn erbyn pobl hyn (y cyfeirir ato yn 4(c) uchod) yn fater i'r Dirprwy Weinidog dros Sgiliau ac mae gwybodaeth am y bobl hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hun yn eu recriwtio (y cyfeirir ato eto yn 4 (c)

uchod) yn fater i'r Ysgrifennydd Parhaol. Gan nad yw'r materion hyn yn rhan o'm cyfrifoldebau portffolio i, nid wyf wedi rhoi sylw iddynt yn y papur hwn. Mae Atodiad 1 i'r papur hwn yn rhoi sylwadau ar y materion eraill y mae'r Pwyllgor wedi eu nodi.

## Goblygiadau Ariannol

6. Nid oes goblygiadau ariannol yn gysylltiedig â'r papur hwn.

**Camau Gweithredu i'r Pwyllgor Pwnc**

7. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys y papur hwn.

**Gwenda Thomas**

**Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol**

Person Cyswllt: John Carter, Is-Adran OPLTCP2, Parc Cathays ffôn: 029 20823095

**Atodiad 1**

## (a) Strategaeth ar gyfer pobl hyn

Lansiwyd Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru (Strategaeth) ym mis Ionawr 2003. Mae'r Strategaeth yn darparu fframwaith 10 mlynedd i gyrff statudol, y sector gwirfoddol ac eraill i roi sylw i oblygiadau cymdeithas sy'n heneiddio ac i wella gwasanaethau i bobl hyn. Mae wedi'i chymeradwyo gan y Ffederasiwn Rhyngwladol ar Heneiddio a dywedir ei bod yn arfer da yn Strategaeth Llywodraeth y DU ar Heneiddio.

Yn ystod hydref 2007, cwblhawyd gwerthusiad ac ymgynghoriad ar gyfeiriad y Strategaeth i'r dyfodol o fis Ebrill 2008. Daeth i'r casgliad i Lywodraeth y Cynulliad a'i holl gyrff partner wneud cynnydd cadarn yn ystod y 5 mlynedd gyntaf. Mae'r seiliau i ddatblygu'r Strategaeth yn genedlaethol ac yn lleol yn gryf ac mae trefniadau cynllunio effeithiol yn eu lle. Yn ogystal mae ysgogiad lleol da y tu ôl i weithredu'r Strategaeth, a rhoddir blaenoriaeth ym mhob ardal i ymgysylltu pobl hŷn â'r broses.

Lansiwyd cam 2 y Strategaeth Byw'n Hirach, Byw'n Well gennyf i ym mis Mawrth 2008. Bydd y cam hwn o'r Strategaeth yn canolbwyntio ar y pedair thema strategol a thrawsbynciol allweddol ganlynol:

Gwerthfawrogi Pobl Hŷn – Cynnal a Datblygu Ymgysylltu

Cymdeithas sy'n Newid – Statws Economaidd Pobl Hŷn

Lles ac Annibyniaeth a

Gwneud iddo ddigwydd – Gweithredu

O dan y themâu strategol hyn mae 24 o faterion blaenoriaeth.

Darparwyd cyllid penodol o £13 miliwn i'r Strategaeth am y cyfnod o fis Ebrill 2003 i fis Mawrth 2008, bellach rhoddwyd £7 miliwn ychwanegol am y 3 blynedd nesaf at y swm hwn, gan wneud cyfanswm buddsoddiad o £20 miliwn, i sicrhau y caiff y Strategaeth ei gweithredu'n effeithiol.

## (b) Comisiynydd Pobl Hyn Cymru

Dechreuodd Ruth Marks ar ei gwaith fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fis Ebrill diwethaf. Mae hyn yn garreg filltir o ran gweithredu'r llywodraeth i wella bywyd i bobl hyn, ac yn enghraifft arall o sut gall Cymru osod esiampl nid yn unig i'r Deyrnas Unedig, ond hefyd i weddill Ewrop a'r byd ehangach. Ei phrif waith fydd diogelu a hyrwyddo buddiannau pobl hŷn.

Mae Deddf Comisiynydd Pobl Hyn (Cymru) 2006 yn darparu Comisiynydd annibynnol yn statudol sydd â grymoedd eang fel y gall chwarae rhan effeithiol wrth fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran lle bynnag y digwydd, gan hyrwyddo delweddau cadarnhaol o heneiddio a rhoi llais cryfach i bobl hŷn yn y gymdeithas.

Wrth ystyried yr hyn yw "buddiannau" pobl hŷn rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hyn, sy'n cynnwys materion megis annibyniaeth, cymryd rhan, gofal, hunangyflawniad ac urddas.

Disgwylir i'r Comisiynydd wneud adroddiad blynyddol i'r Prif Weinidog ac mae cyllid penodol o £5 miliwn wedi'i ddarparu i sefydlu a rhedeg ei swyddfa dros y tair blynedd nesaf.

## (c) Darpariaeth ar gyfer cwynion a gwneud iawn

Yn y rheoliadau sy'n berthnasol i gartrefi gofal, mae'n ofynnol bod darparwyr gofal cofrestredig yn sicrhau bod gweithdrefn gwyno gadarn a hygyrch yn ei lle a rhaid iddi fod ar gael i unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth neu berson sy'n gweithredu ar eu rhan. Mae hefyd yn ofyniad statudol bod person sy'n gwneud cwyn yn cael gwybod pa gamau sydd i'w gwneud cyn pen 28 niwrnod ar ôl i gwyn gael ei gwneud. Mae'r safonau gofynnol cenedlaethol yn ehangu ymhellach yn y maes hwn.

Yn fwy cyffredinol, daeth rheoliadau newydd ar weithdrefnau cwyno gwasanaethau cyhoeddus i rym ar 1 Ebrill 2006. Nododd y rhain

gamau'r weithdrefn gwyno a chyfrifoldebau awdurdodau lleol ar gyfer ymdrin â chwynion.  Mae tri phrif gam i'r weithdrefn, datrys yn lleol, ystyried yn ffurfiol a'r trydydd cam yw bod panel annibynnol yn ystyried cwyn yr achwynydd. Rôl y panel yw adolygu'r modd yr ymdriniwyd â'r gwyn, unrhyw ganlyniadau ac argymhellion a wnaed ac ymateb yr awdurdod mewn perthynas â'r datganiad a wnaed gan yr achwynydd. Lle y bo'n bosibl, dylid ceisio datrys y sefyllfa; fodd bynnag ni ddylai hyn gynnwys ymchwilio i'r achos o'r newydd.

Bu i'r arweiniad: "Gwrando a Dysgu: Canllaw i Ymdrin â Chwynion a Sylwadau mewn Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol yng Nghymru" nodi camau'r weithdrefn gwyno a chyfrifoldebau'r awdurdodau lleol ar gyfer ymdrin â chwynion a sylwadau mewn gwasanaethau cymdeithasol.

Gall pobl gwyno am unrhyw agwedd ar wasanaethau cyhoeddus y mae gan yr awdurdod y grym neu'r ddyletswydd i'w darparu. Gallant gwyno, yn ogystal, am unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu ar ran corff GIG. Gallant hefyd gwyno am wasanaethau cymdeithasol a ddarperir gan gyrff eraill os ydynt yn rhan o gytundeb â'r awdurdod lleol.

### (ch) Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn

Mesurir cynnydd ar y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn gan ddefnyddio offeryn archwilio hunanasesu (SAAT). Mae SAAT yn sgorio cynnydd o 1 – 6 gyda 6 yn dangos bod y safon wedi'i gweithredu'n llawn.

Mae'r duedd gyffredinol ar sgoriau'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar i fyny gyda'r gwelliant blwyddyn o 3.94 ym mis Mawrth 07 i 4.69 erbyn mis Mawrth 08.  Yn unol â'r canllawiau sgorio, dengys hyn fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ledled Cymru a bod angen ymdrechu i barhau â'r cynnydd hwn.

Bydd y canlynol yn sicrhau bod y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol wedi'i weithredu'n llawn erbyn 31 Mawrth 2009:

Parhau i gynnal cyfarfodydd unigol â phob ardal i fonitro cynnydd

Newid y SAAT i system adrodd agored i rannu profiad

Cyfarfodydd rhanbarthol fel y gellir cael trafodaeth ac adolygu beirniadol

Lledaenu profiad ar y safonau sy'n sgorio llai na 5

Cylchlythyr chwarterol i adrodd ar y datblygiadau sy'n berthnasol i'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol

Cyfarfodydd o'r "Bwrdd Gweithredu "i oruchwylio'r cynnydd dros Gymru gyfan

Dadansoddiad SAAT ym mis Hydref 2008 i sicrhau bod y gweithredu'n unol â'r targedau.

Wrth i ail-gyflunio arfaethedig y GIG yng Nghymru ddigwydd, bydd angen trefniadau rheoli pontio ar amrediad o faterion, gan gynnwys y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol. O leiaf, bydd 2009-2010 yn flwyddyn o atgyfnerthu'r cynnydd a wnaed yn ystod cam 1 a'r bwriad ar hyn o bryd yw gofyn i bob un o'r 22 maes partneriaeth ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre am gynllun gweithredu interim lleol am 2009-1010. Bydd angen y rhain erbyn diwedd Mehefin 2009 a bydd angen iddynt ddangos sut caiff y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ei barhau.

Yn ogystal ag adolygiad ar y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol gan AGIC / ASGC, bydd datblygiadau eraill yn ystod 2009 – 2010 yn cynnwys peilota mesuryddion canlyniadau. Caiff hyn ei dynnu o ddata a gesglir yn rheolaidd sydd eisoes yn eiddo i'r cyhoedd, er enghraifft:

Imiwneiddio rhag niwmonia, 2005 / 06 – rhan allweddol o hybu iechyd
Rhyddhau cleifion o ysbytai, 1998 – 2006 – mae'n rhoi mesur ar ofal ysbyty
Cluniau a dorrwyd, 1998 – 2006 – mae'n rhoi mesur ar gwympiadau a thoriadau

### (d) Amddiffyn oedolion agored i niwed

Mae "Mewn Dwylo Diogel", arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru a gyhoeddwyd yn 2000 yn nodi'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer datblygu polisïau a gweithdrefnau amddiffyn oedolion lleol. Mae 'Mewn Dwylo Diogel' yn gofyn bod Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yn arwain a chydlynu proses o ddatblygu lleol i atal, nodi, ymateb i gam-drin oedolion agored i niwed a'i wella. Mae hyn yn cynnwys cydweithio ag asiantaethau eraill i sicrhau y caiff gweithdrefnau eu datblygu i hyrwyddo rhannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau. Mae'r asiantaethau allweddol eraill yn cynnwys comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau iechyd a chymdeithasol; darparwyr tai gwarchod a thai â chymorth; rheolyddion gwasanaethau; yr heddlu ac asiantaethau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith ac asiantaethau'r sector gwirfoddol a phreifat.

### Ym mhob ardal o Gymru, mae polisïau a gweithdrefnau amddiffyn oedolion lleol yn eu lle a chedwir golwg arnynt.

### O fewn cyd-destun ehangach amddiffyn oedolion agored i niwed, mae mesurau eraill wedi cynnwys:

cynnwys mesurau i ddiogelu amddiffyn oedolion yn y cyfundrefnau rheoleiddio a safonau gofynnol cenedlaethol o dan y Ddeddf Safonau Gofal 2000 ar gyfer gwasanaethau megis cartrefi gofal a gofal cartref;

y rhaglen ar Urddas a Pharch mewn Gofal a lansiais ar 1 Hydref y llynedd;

gweithredu yn 2004 Ran VII o'r Ddeddf Safonau Gofal 2000 a sefydlodd y cynllun Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed i wahardd o'r gweithlu'r bobl hynny sydd wedi niweidio oedolion agored i niwed yn eu gofal. Ychwanegodd haen amddiffyn ychwanegol at y prosesau gwirio cyn cyflogi, gan gynnwys gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, er mwyn atal camdrinwyr y gwyddys amdanynt rhag mynd i mewn i'r gweithlu gofal;

gweithredu Deddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006 yn rheolaidd a fydd yn estyn y trefniadau gwaharddiad o'r gweithlu a'r gofyniad am wiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol i bron bob un o'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio gydag oedolion agored i niwed neu sy'n cael cysylltiad rheolaidd â nhw.

Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a ddaeth i rym ac sy'n cynnwys trosedd newydd o gam-drin neu esgeuluso'n fwriadol berson sydd heb alluedd;

atodiad i'n harweiniad "Mewn Dwylo Diogel" i wella mesurau diogelu yn erbyn cam-drin yn ariannol oedolion agored i niwed sy'n derbyn gwasanaethau gofal yn eu cartrefi eu hunain. Rydym wedi ymgynghori ar hyn a dylai'r fersiwn derfynol gael ei chyhoeddi cyn hir. Cyhoeddwyd atodiad tebyg ar atal cam-drin ariannol mewn cartrefi gofal a lleoliadau tai â chymorth yn 2003;

cyhoeddi ar gyfer ymgynghori ein Canllaw Arfer Da drafft ar Bryderon Cynyddol am Gartrefi Gofal; a

phenodi Comisiynydd Pobl Hyn Cymru. Er mai'r Comisiynydd fydd yn penderfynu ar ei blaenoriaethau ei hun, mae'n anochel y bydd cam-drin pobl hyn yn uchel ar yr agenda, a bydd y Comisiynydd yn gallu ymchwilio i sut mae awdurdodau lleol yn gweithredu'r trefniadau amddiffyn oedolion.

Yn gynharach eleni cyhoeddais adolygiad mawr o faterion amddiffyn oedolion yng Nghymru. Mae'r manylion yn fy natganiad Cabinet ysgrifenedig ym mis Chwefror 2008 a gyhoeddir ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol. Un elfen o'n dull o fynd ati oedd sefydlu Bwrdd Prosiect Amddiffyn Oedolion y mae ei aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o heddluoedd Cymru a chadeiryddion y 4 fforwm amddiffyn oedolion yng Nghymru. Mae'r Bwrdd Prosiect hwn yn ystyried effeithiolrwydd ein polisïau amddiffyn oedolion, y rhai sydd yn eu lle neu sy'n dal i gael eu datblygu er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ac yn gadarn. Yn rhan o'r gwaith hwn byddwn hefyd yn comisiynu adolygiad annibynnol o'n harweiniad "Mewn Dwylo Diogel".

### (dd) Urddas mewn Gofal

Ar 1 Hydref 2007, cyhoeddais Raglen Urddas a Pharch mewn Gofal i Gymru. Yn y cyhoeddiad, eglurais y byddai Grwp Cydlynu Cenedlaethol Urddas mewn Gofal yn cael ei sefydlu i gynnig cyngor ar weithredu rhaglen 3 blynedd.

Gwnaed ymgynghoriad helaeth ac roedd y themâu a gododd yn cynnwys: Hyfforddiant, Partneriaeth ac Adnoddau, Grymuso ac Eiriolaeth, Effaith a Gwerthuso, Datblygu'r Gweithlu, Ymchwil. Mae angen grwp cydlynu ar y themâu hyn sy'n gorgyffwrdd i sicrhau eu bod yn cael eu symud ymlaen yn systematig ac yn effeithiol ledled Cymru, gan ystyried gwaith sydd eisoes ar y gweill.

Mae angen amlwg am Grŵp Cydlynu Cenedlaethol Urddas mewn Gofal i oruchwylio'r gwaith yng Nghymru. Yn ogystal, bydd yr adolygiad ar y cyd o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol sydd yn yr arfaeth gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cynnwys canolbwynt ar yr agenda Urddas mewn Gofal. Gallai canfyddiadau'r adolygiad gael eu cyflwyno i'r Grŵp Cydlynu Cenedlaethol Urddas mewn Gofal i'w hystyried ymhellach ac felly sicrhau bod cysylltiad â'r datblygiadau eraill.

Y rhesymwaith cyffredinol i'r Grŵp Cydlynu Cenedlaethol Urddas mewn Gofal yw sicrhau bod pob datblygiad sy'n berthnasol i'r agenda hon yng Nghymru yn cael eu prosesu'n systematig ac yn effeithiol. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Grŵp Cydlynu Cenedlaethol Urddas mewn Gofal ar 14 Gorffennaf 2008 gyda chyfarfodydd yn digwydd bob chwarter. Mae'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus wedi penodi Dr Win Tadd, Prifysgol Caerdydd, yn Gadeirydd y Grŵp.

Rwyf wedi cytuno ar aelodaeth y Grŵp ac mae'n amlasiantaethol ac yn amlddisgyblaethol ei ganolbwynt. Yn ogystal, mae is-grwp Gofal Cymdeithasol wedi'i sefydlu.

Y rhesymwaith cyffredinol i'r Grŵp Cydlynu Cenedlaethol Urddas mewn Gofal yw sicrhau bod pob datblygiad sy'n berthnasol i'r agenda hon yng Nghymru yn cael eu prosesu'n systematig ac yn effeithiol. Datblygir cynllun gwaith a gallai hyn roi cyfres o gynhyrchion, er enghraifft papurau safbwynt neu weithdai, gyda'r bwriad o roi canolbwynt ac amlygrwydd i'r agenda urddas mewn gofal.

Rhagwelir y bydd y dull cyffredinol yn weithgarwch pragmatig a fydd yn datblygu cynhyrchion gweladwy a dulliau ymarferol er mwyn symud yr agenda hon ymlaen. Gellir gweld y Grŵp fel un ymgynghorol a fydd yn helpu i ddylanwadu ar bolisi ac arfer yng Nghymru neu i'w gyfarwyddo. Bydd y Grwp hefyd yn gatalydd i ddatblygiadau eraill yng Nghymru a byddai disgwyl i'r aelodau osod enghreifftiau o fewn eu cyrff eu hunain.

### (e) Monitro rheoliadau a safonau mewn cartrefi gofal drwy arolygu

### Fframwaith Cyfreithiol

Mae'r Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn rhoi dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i fod yn awdurdod cofrestru a rheoleiddio i gartrefi gofal (a nifer o wasanaethau gwahanol). Mae'n caniatáu i gofrestru a rheoliadau eraill gael eu gwneud ac, o dan y pwerau a roddwyd gan adran 23 (1), i wneud safonau gofynnol cenedlaethol yn berthnasol i'r holl wasanaethau sydd wedi'u rheoleiddio. Mae Gweinidogion Cymru yn cyflawni eu swyddogaethau drwy Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, (AGGCC).

## Rheoliadau a safonau gofynnol cenedlaethol

Mae rheoliadau a safonau gofynnol cenedlaethol sy'n berthnasol i gartrefi gofal i oedolion (pobl hŷn) ac oedolion iau. Mae cartref gofal i oedolion yn sefydliad sy'n darparu llety yn ogystal â gofal personol a / neu nyrsio. Ymysg pethau eraill, mae'r rheoliadau'n darparu ynglŷn ag addasrwydd y personau sy'n rhedeg a rheoli'r cartref, addasrwydd y safle, gofynion mewn perthynas â rhedeg y cartref yn briodol a'r angen am hyfforddiant priodol. Nid yw person yn addas i weithio mewn cartref gofal oni bai fod ganddo enw da a'i fod yn unplyg, fod ganddo'r cymwysterau, y sgiliau, y cymwyseddau a'r profiad angenrheidiol a'i fod yn heini'n gorfforol ac yn feddyliol. Mae'r safonau gofynnol cenedlaethol yn cynnwys: dewis y cartref, cynllunio ar gyfer anghenion a blaenoriaethau unigol, ansawdd bywyd, ansawdd y gofal a'r driniaeth, staffio, rhedeg a rheoli'r cartref, pryderon, cwynion ac amddiffyn a'r amgylchedd corfforol. Gall arolygwyr o AGGCC asesu'r gwasanaeth yn erbyn y rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol.

## Offer asesu ac arolygu

Datblygwyd amrediad o offer asesu ac arolygu i'w defnyddio gan arolygwyr yn AGGCC. Asesir amlder a dwyster arolygu cartrefi yn unigol i bob cartref gofal ond bydd yn cynnwys cyfnod arolygu (sy'n cwmpasu cyfnod o rai wythnosau) gyda lleiafswm o un ymweliad yn ystod y cyfnod hwn, a chynhyrchu adroddiad cyhoeddus bob blwyddyn.

Mae'r arolygiad yn dechrau wrth i'r darparwr lenwi ffurflen hunanasesu gynhwysfawr ac mae peidio â'i llenwi'n drosedd. Mae'r asesiad hwn yn amlinellu barn y darparwr / y rheolwr cofrestredig o sut maent yn ateb y rheoliadau ac yn rhybuddio'r arolygydd am unrhyw newidiadau y gall fod angen eu dilyn. Mae'r asesiad wedi'i gwblhau, yr holiaduron a ddychwelwyd, ynghyd â barn yr arolygydd am anghenion y gwasanaeth a'i wybodaeth bresennol ohono, yn galluogi'r arolygydd i ddatblygu cynllun arolygu, o 'ddadansoddiad anghenion'.

Yn ganolog i hyn mae anghenion defnyddwyr gwasanaethau ac angen cynhenid y gwasanaeth. Gall hyn gynnwys maint y gwasanaeth, a yw'r gwasanaeth wedi'i leoli mewn safle ynysig neu'n cynnig gwasanaeth arbenigol iawn i grwp sy'n arbennig o agored i niwed.

Wrth gwblhau'r dadansoddiad anghenion rhaid i'r arolygydd sicrhau y bydd y gweithgaredd arolygu a drefnir yn gymesur â'r anghenion a nodwyd sydd gan y gwasanaeth.

## Cynllun Arolygu

Mae'r dadansoddiad anghenion yn arwain at ddatblygu cynllun arolygu am y flwyddyn. Bydd hyn yn cynnwys ystyried:

Y meysydd y mae angen eu cwmpasu yn yr arolygiad

Amlder, hyd, amseriad a dwyster yr arolygiad

Yr amrediad o fethodoleg a ddefnyddir

Y meysydd sylfaenol sy'n ganolog i les defnyddwyr gwasanaethau.

## Ymgysylltu â Defnyddwyr gwasanaethau

Mae'n hanfodol ym mhob gwasanaeth, fod y defnyddwyr gwasanaethau'n ganolog i'r broses arolygu a heblaw am drafodaethau â phreswylwyr mae amrediad o fethodoleg arolygu ar gael i arolygwyr yn ogystal er mwyn barnu profiadau'r defnyddwyr gwasanaethau o fyw yn y cartref gofal.

Efallai bydd rhai defnyddwyr gwasanaethau sydd eisiau bod yn rhan o'r broses eisiau cynnwys eiriolwr i helpu i gynrychioli eu barn.

ae pwyllgorau preswylwyr wedi'u sefydlu mewn rhai cartrefi a gall fod yn briodol i'r arolygydd fynychu cyfarfod neu gellir bwydo unrhyw ganlyniadau a gofnodwyd o drafodaethau cyfarfodydd blaenorol i'r broses arolygu gyffredinol.

Defnyddir olrhain achosion yn ogystal lle gall yr arolygydd ddilyn gofal defnyddiwr gwasanaethau o'r asesiad cychwynnol i ddarparu'r gofal o safbwynt y defnyddiwr gwasanaethau ac eraill a gall hyn fesur effeithiolrwydd y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol.

Yn ogystal rhaid i'r darparwr gael system gynhwysfawr i adolygu ansawdd y gofal a ddarperir a rhaid gwneud hyn o leiaf unwaith y flwyddyn a darparu adroddiad i AGGCC ac i unrhyw awdurdod lleol sy'n cytundebu â nhw. Wrth wneud yr archwiliad hwn rhaid i ddarparwyr ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau, eu cynrychiolwyr, staff ac unrhyw awdurdod lleol sydd wedi trefnu i letya defnyddiwr gwasanaethau yn y cartref.

## Pwerau arolygwyr

Gall arolygwyr fynd i mewn i gartref ar unrhyw adeg gan roi rhybudd i'r darparwr neu beidio a heblaw am arolygu, gallant hefyd ymchwilio i gwynion neu ddilyn unrhyw ofynion a wnaed o dan y rheoliadau. Gall arolygwyr fynd i mewn i unrhyw ran o'r safle a siarad â'r preswylwyr a'r staff, archwilio'r safle gan gynnwys stociau bwyd a meddyginiaeth, cynlluniau gofal ac amrediad cynhwysfawr o gofnodion.

Mae AGGCC yn gweithio gyda darparwyr i sicrhau cydymffurfio. Mae rheoliadau newydd a ddaeth i rym yn 2007 yn rhoi dyletswydd newydd ar ddarparwyr i roi gwybod i AGGCC pryd a sut maent wedi gwneud unrhyw gamau unioni a nodir o fewn amserlen benodol gan AGGCC.

Ceir pwerau gorfodi pellach ac fe'u defnyddir lle y bo angen ac maent yn cynnwys dilyn llwybrau troseddol a sifil -

erlyniad troseddol (neu, mewn amgylchiadau priodol, rhybudd syml) ac

achos sifil (h.y. gwrthod cofrestru; gosod, amrywio neu dynnu amodau; diddymu cofrestriad; gwahardd darparwyr gofal dydd a gofalwyr plant)

Mae Cyfarwyddwyr Rhanbarthol yn gyfrifol am benderfyniadau gorfodi yn eu rhanbarth. Yn ogystal mae cyfreithwyr o Dîm Gofal Cymdeithasol y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ymwneud yn agos â hyn.

### Y Broses Orfodi

Mae nifer o gamau y mae'n rhaid i'r arolygwyr eu dilyn pan amheuir bod person cofrestredig yn torri'r rheoliadau neu'r ddarpariaeth statudol. Gall hyn ddod i'r golwg yn ystod y broses arolygu neu o ganlyniad i gwyn neu hysbysiad amddiffyn oedolion / plant.

Yn unol ag egwyddorion rheoleiddio da fel y'u disgrifir yn y Concordat Gorfodi (a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ym mis Mawrth 1998), bydd AGGCC bob amser yn cynnig cyfle i drafod amgylchiadau achos â phersonau cofrestredig, ac eithrio lle mae angen camau gorfodi'n syth. Gall torri'r rheoliadau unwaith yn ddi-droi'n-ôl ysgogi camau'n syth yn hytrach nag hysbysiad cydymffurfio. Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd AGGCC yn ceisio datrys unrhyw wahaniaethau heb fod angen cymryd camau gorfodi ffurfiol, i sicrhau'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Yr egwyddor ganolog yw pan nodir bod y rheoliadau wedi'u torri unwaith neu ragor yn ddifrifol a'r arolygydd yn ystyried y caiff hynny effaith andwyol ar iechyd a / neu les defnyddwyr gwasanaethau, rhoddir hysbysiad cydymffurfio. Mae hyn yn rhybuddio'r darparwr oni fyddant yn cymryd y camau angenrheidiol y gallent gael eu herlyn, ac felly dyma'r cam cyntaf o ran gorfodi.

Os nad yw unrhyw gamau angenrheidiol yn cael eu gwneud mewn ffordd sy'n bodloni AGGCC, neu o gwbl, ystyrir symud ymlaen â chamau gorfodi sifil a/neu droseddol.

Mae'r rhan fwyaf o gamau cofrestru a gorfodi'n cynnwys rhoi hysbysiad ffurfiol cynnig a phenderfyniad. Mae nifer o'r atebion sifil sy'n agored i AGGCC – megis cynnig i osod amodau na chytunwyd arnynt neu i ddiddymu cofrestriad – yn rhoi hawl i'r personau cofrestredig wneud sylwadau i AGGCC cyn i benderfyniad terfynol gael ei wneud. Arfer cyffredin fydd i'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol yn y rhanbarth perthnasol ystyried sylwadau.

Rhaid i AGGCC adael 28 niwrnod clir i sylwadau gael eu gwneud ar ôl rhoi hysbysiad cynnig. Wedyn cyhoeddir hysbysiad penderfyniad sy'n rhoi'r hawl i'r personau cofrestredig apelio i'r Tribiwnlys Safonau Gofal. Gall y lleoliad neu'r asiantaeth barhau i weithredu tan i'r achos gael ei benderfynu gan y Tribiwnlys.

Mae penderfyniadau Tribiwnlys a gyhoeddwyd yn dangos y bydd y Tribiwnlys bob amser yn edrych ar bob dewis sydd ar gael wrth ystyried penderfyniad a fydd yn arwain at rywun yn cael ei atal rhag parhau i redeg eu busnes neu at bersonau agored i niwed yn gorfod gadael cartref, er enghraifft. Mae penderfyniadau o'r fath yn gofyn am gydbwyso manwl. Mae tribiwnlysoedd wedi pwysleisio ei bod yn bwysig i arolygwyr ganolbwyntio ar y materion allweddol yn ogystal â bod angen i'r cyrff cyhoeddus sy'n comisiynu gwasanaethau a'r rheolydd gydweithio mewn amgylchiadau o'r fath.

Ceir darpariaeth fel y gellir gwneud cais yn uniongyrchol i'r llys i ddiddymu cofrestriad yn syth lle'r ymddengys bod perygl difrifol i fywyd, iechyd neu les person neu lle mae plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol. Mae modd herio penderfyniad y llys hefyd drwy apelio i'r Tribiwnlys.

Gall AGGCC ddefnyddio'r pwerau a ddirprwywyd iddo i ddilyn unrhyw un o'r atebion sifil y darperir ar eu cyfer yn y ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, Gwasanaethau Cyfreithiol (GC) biau'r penderfyniad terfynol a ddylid mynd ymlaen ag unrhyw erlyniad. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, bydd GC yn rhoi sylw i'r Cod Erlyn i Gwnsler y Cynulliad. Mae'n rhaid i GC fod yn fodlon y gellir ateb y baich tystiolaethol a bod erlyniad er budd y cyhoedd. Ceisir barn y Cwnsler Cyffredinol cyn dechrau ar unrhyw erlyniad.

Lle mae erlyniad yn bosibilrwydd, bydd staff yn rhoi sylw i Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996, Cod Ymarfer CPIA a Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE). Mewn achosion troseddol mae amser o'r pwys pennaf gan fod rhaid dwyn achos cyn pen cyfnod o chwe mis o'r dyddiad pan ddaeth yr erlynydd i wybod am dystiolaeth ddigonol yn ei farn ef i warantu'r achos. Ni ellir dod ag achos dros dair blynedd ar ôl cyflawni'r drosedd.

## (f) Trin Pobl sy'n Byw mewn Gofal Preswyl

O dan Ddeddf Cymorth Gwladol 1948, awdurdodau lleol sydd â'r cyfrifoldeb statudol am asesu anghenion gofal cymdeithasol eu trigolion ac am gynllunio a chomisiynu'r gwasanaethau sydd eu hangen i ateb yr anghenion hynny. Bydd hyn wrth gwrs yn berthnasol i wasanaethau i bobl hyn, darparu gofal cartref a gwasanaethau eraill yn y gymuned a darparu gofal preswyl. Mae rhan Llywodraeth Cynulliad Cymru ar lefel strategol o ran datblygu a darparu'r fframwaith polisi cyffredinol, arweiniad statudol, cyfundrefn reoleiddio a mentrau cysylltiedig y mae awdurdodau'n gweithredu oddi mewn iddynt. Mae hyn er mwyn sicrhau mai'r un yw ein nod a bod cysondeb dull wrth ddarparu a chyflenwi gwasanaethau gofal cymdeithasol i rai o'n pobl fwyaf agored i niwed yn y gymdeithas.

Gosododd Deddf Safonau Gofal 2000 y fframwaith deddfwriaethol yn ei le i'n galluogi ni i reoleiddio darparu gofal cymdeithasol. O dan y rhain mae gan y rheini sy'n darparu gofal personol (sef cymorth gyda gweithrediadau corfforol megis bwyta a mynd i'r toiled) gyda / heb lety neu ofal nyrsio ddyletswydd statudol i gofrestru a chael eu rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gosod rheoliadau a safonau gofynnol cenedlaethol sy'n deillio o'r pwerau yn y Ddeddf ym

mhob un o'r amrywiol leoliadau lle darperir gofal personol, gan gynnwys gwasanaethau i bobl hyn.  Mae'r rheoliadau yn nodi'r gofynion cyfreithiol creiddiol allweddol rydym yn disgwyl i ddarparwyr cyfrifol eu cyrraedd ac maent yn cwmpasu materion megis addasrwydd y rheolwyr a'r gweithwyr, dyletswydd gofal i'r defnyddiwr gwasanaethau, ethos y corff sy'n darparu'r gofal ac yn achos cartrefi gofal, addasrwydd y safle. Dyma'r rheoliadau y mae AGGCC yn eu defnyddio wrth reoleiddio darparwyr yng Nghymru.

Er mwyn ehangu'r rheoliadau hyn ymhellach rydym wedi datblygu safonau gofynnol cenedlaethol; yn achos pobl hŷn i asiantaethau gofal cartref ac i gartrefi gofal i bobl hŷn. Mae'r rhain yn cynrychioli barn y cytunwyd arni o ran sut dylai darparwr neu wasanaeth da fod ac fe'u cyflwynwyd ar ôl ymgysylltu drwy grwp gorchwyl a gorffen rhanddeiliaid ac ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Roedd y safonau gofynnol cenedlaethol yn adeiladu ar y rheoliadau drwy nodi pethau fel y profiad a'r cymwysterau y mae'n rhaid i reolwyr a gweithwyr eu cael, y trefniadau gweithredol i'r darparwr, gan barchu urddas a dymuniadau'r defnyddwyr gwasanaethau ac yn achos gofal preswyl, y cyfleusterau y dylai cartrefi gofal eu cynnig. Mae AGGCC yn defnyddio'r safonau gofynnol cenedlaethol i roi gwybodaeth i'w helpu wrth reoleiddio darparwyr yn erbyn y rheoliadau y soniais amdanynt uchod. Mae'r rheoliadau ynghyd â'r safonau gofynnol cenedlaethol yn sicrhau bod yr hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei ddisgwyl gan ddarparwyr yn eglur ac yn helpu i hyrwyddo a gwella safon ac ansawdd y gofal a ddarperir ar draws amrediad o leoliadau gofal a chyfleusterau.

Mae'r rheoliadau hyn a'r safonau gofynnol cenedlaethol ynghyd ag AGGCC yn rheoleiddio cartrefi gofal, yn sicrhau bod y rhai mewn gofal preswyl yn derbyn gofal yn y dull ac i'r safon y mae ganddynt hawl i'w disgwyl. Drwy ddefnyddio'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol yn rhan o'u gwaith yn rheoleiddio cartrefi gofal, gall AGGCC fonitro gofal, iechyd, lles a diogelwch pobl hyn mewn gofal preswyl.

Mae rheoliadau penodol yn eu lle i drafod, gweinyddu, storio a chofnodi pob meddyginiaeth yn ddiogel. Mae'r safonau gofynnol cenedlaethol yn ehangu ar y gofynion hyn ac yn croesgyfeirio at y ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys camddefnyddio cyffuriau a thrafod cyffuriau a reolir.  Roedd adroddiad blynyddol diweddaraf AGGCC yn dweud bod rheoli meddyginiaethau'n broblematig ac yng ngoleuni hyn, mae AGGCC wedi bod yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael â'r mater hwn gyda chartrefi unigol drwy ei broses rheoleiddio. Ar hyn o bryd mae'n gweithio gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar ddarparu meddyginiaethau mewn cartrefi gofal. Yn ogystal, er mwyn gwella rheoli meddyginiaethau'n ddiogel mewn cartrefi gofal mae Llywodraeth y Cynulliad wedi:

sefydlu tîm o fferyllwyr i weithio gydag AGGCC i roi cyngor ar briodoldeb y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ac i roi cyngor i gartrefi gofal am faterion cyffredinol sy'n ymwneud â rheoli meddyginiaethau. O dan amodau'r cytundeb fferylliaeth presennol mae "Fframwaith Hyfforddiant a Chymhwysedd Gwasanaethau Ychwanegol Cenedlaethol Fferylliaeth Gymunedol" yn arbennig i gartrefi gofal yn ei le. Rhaid i bob fferyllydd cymunedol sy'n dymuno darparu gwasanaethau cartrefi gofal fel Gwasanaethau Ychwanegol Cenedlaethol ddangos ei fod yn gymwys cyn dechrau'r gwasanaethau;

cynhyrchu a darparu cyllid yn ddiweddar i gyflwyno Gwasanaethau Ychwanegol i estyn cytundebau meddygon teulu i ddarparu dull rhagweithiol o reoli rhagnodi i breswylwyr cartrefi gofal. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad bob 6 mis o feddyginiaeth gyda chofnod ysgrifenedig o'r adolygiad. Gwirir meddyginiaeth nad yw wedi'i defnyddio a dod â hi i ben lle y bo'n briodol. Darperir yr asesiadau hyn yn ogystal â 'gwasanaethau hanfodol' sy'n disgrifio cytundebau arferol meddygon teulu.

Yn ogystal mae Safon Ofynnol Genedlaethol sy'n dweud lle nad oes galluedd gan ddefnyddwyr gwasanaethau, y dylai person cofrestredig y cartref gofal hyrwyddo mynediad i wasanaethau eiriolaeth.

Mae "Meddwl am Fynd i Gartref Gofal? - arweiniad i'r hyn sydd angen i chi ei wybod" , canllaw gwybodaeth Llywodraeth y Cynulliad a gyhoeddwyd yn ddiweddar wedi'i anelu at unigolion sy'n ystyried symud i ofal preswyl. Mae'r canllaw yn darparu gwybodaeth ddiweddar, gynhwysfawr ar amryw o faterion gan gynnwys gwneud cwyn.